LAURA
THOMAS

# Gwehyddu ar Froc Môr



Gwehyddu yw'r gelfyddyd o blethu dwy set o edafedd, yr ystof (warp) fer7gol a'r anwe (we9) llorweddol, ar ongl sgwâr i'w gilydd. Ar ei ffurf symlaf, mae'r edau anwe yn mynd dros ben edau ystof, yna o dan yr un nesaf, drosto, oddi tano, ac yn y blaen.

Mae gwehyddu yn ymddangos fel creB anhygyrch, oherwydd y gost o brynu gwŷdd (loom) a'r cymhlethdod technegol o baratoi gwŷdd. Serch hynny, gall ffabrig gwehyddu syml gael ei greu drwy ddefnyddio fframiau, bocsys, llyfrau clawr caled, coesau byrddau, pyst ffensys – unrhyw beth lle gall edau ystof gael ei lapio a'i ddal yn dyn er mwyn i'r edau anwe allu mynd drwyddo. Ar gyfer y prosiect hwn, mae'r egwyddor wedi'i ddarlunio ar ddarn o froc môr. Gallai'r ffabrig gael ei adael *in situ* i greu darn o waith celf hyfryd yn barod i'w hongian ar wal neu i'w roi ar y silff ben tân. Os ydych yn dymuno, gallai hefyd gael ei dorri i ffwrdd o'r broc môr a'i ddefnyddio fel patsh addurnol e.e. dilledyn, ategolyn neu glustog.

© Laura Thomas & Cultural Cwtsh Creadigol 2023

Deunydd ac offer sydd eu hangen:



- Broc môr – rhywbeth fflat neu esmwyth yn ddelfrydol
- Siswrn
- Nodwydd tapestri mawr – plas7g neu fetel
- Sgiwer 'kebab' pren – gallwch brynu'r rhain yn rhad mewn archfarchnadoedd
- Pleiars neu declyn tebyg i dorri'r sgiwer
- Amrywiaeth o edafedd
- Tâp masgio
- Rhywbeth ychwanegol dewisol – darn o gorcyn neu ffelt wedi'i dorri i'r maint iawn er mwyn gorchuddio cefn y broc môr os ydych yn dymuno.

© Laura Thomas & Cultural Cwtsh Creadigol 2023


## Y broses



1. Dewiswch edau cryf, esmwyth ac unffurf fel eich edau ystof. Fan hyn, rydw i wedi defnyddio cotwm 3ply. Glynwch ddiwedd eich edau ystof gyda thâp masgio ar gefn y broc môr.



2. Lapiwch yr edau ystof yn dyn o amgylch y broc môr a rhowch yr un faint o bwysau ar yr edafedd wrth i chi ei lapio a gadewch fwlch cyfartal o ran maint rhwng pob edau ystof. Gewch chi ddewis maint y bwlch, ond byddwn yn awgrymu tua 23mm. Ar ôl i chi orffen, torrwch yr edau a rhowch dâp i'w gadw'n ei le.




3. Nawr trowch y broc môr nôl i'r 'ochr dde'. Drwy ddefnyddio'r rhan o'r pleiars sy'n gallu torri, torrwch 2 ddarn o'r sgiwer pren, ychydig yn fwy llydan na lled yr ystof. Yna, pasiwch y rhain o dan yr edau ystof a sleidiwch un i waelod yr ystof a'r llall i ben yr ystof. Mae hyn yn codi'r edau ystof o'r pren ac yn ei wneud yn haws i'w wehyddu.

© Laura Thomas & Cultural Cwtsh Creadigol 2023



4. Gwthiwch yr edau anwe drwy nodwydd. Yn ofalus, rhowch eich nodwydd dros yr edau ystof cyntaf, yna o dan y nesaf, drosto, oddi tano ac ar draws y lled llawn. Yn yr enghraiB hon, rydw i'n mynd o'r dde i'r chwith. Tynnwch y nodwydd a'r edau drwyddo, gan adael 'cynffon' o leiaf 8cm o edau. Gwthiwch yr edau wedi'i wehyddu i lawr gyda'ch bysedd neu mae rhai yn hoffi defnyddio fforc neu grib â dannedd llydan. Yna fe allwch chi wehyddu eich ail res anwe, gan fynd o'r chwith i'r dde, drosto, oddi tano, drosto, oddi tano, ond bod y dilyniant i'r gwrthwyneb i'r rhes gyntaf.

Cymerwch ofal i greu selfais taclus – sef yr ymylon ffabrig sydd wedi'u gwehyddu ar ei hyd. Peidiwch â thynnu'r edau anwe yn rhy dyn neu byddwch yn tynnu eich selfais ac yn creu ffabrig cam. Dydych chi ddim eisiau dolenni o edau anwe chwaith ar y selfais, felly gosodwch yr edau yn ofalus a newidiwch ei leoliad yn ôl yr angen.



5. Ar ôl i chi wehyddu eich rhes gyntaf, efallai y byddwch eisiau gadael 'cynffonau'r' edau i fod yn y golwg neu eu brodio. Yn y llun yma, rydw i'n brodio'r gynffon olaf. Mae'r nodwydd yn dilyn llwybr yr ail res i'r olaf, yn mynd oddi tano , drosto, oddi tano, dros 4 edau ystof. Yna mae'r nodwydd yn mynd y tu ôl i weddill y ffabrig, ac rydych chi'n ei dynnu'n ofalus nes ei fod yn gadael cynffon, y gallwch ei dorri wedyn.




6. Yna fe allwch chi wneud yr un peth gyda'r gynffon gyntaf o'r rhes gyntaf. Y tro yma, dilynwch lwybr yr ail res o wehyddu, oddi tano a thros 4 edau ystof gyda'r nodwydd, ac yna ewch ag e i gefn y ffabrig a thynnu'r gynffon yn ofalus i gefn y ffabrig.

© Laura Thomas & Cultural Cwtsh Creadigol 2023




7. Yna, fe allwch chi dorri'r gynffon, ac fe gewch chi selfeisiau taclus sydd wedi'u gwehyddu'n llawn.

8. Parhewch i wehyddu, gan amrywio rhwng yr edafedd anwe i greu streipiau lliwgar, gweadeddol ym mha bynnag batrwm ag y dymunwch. Gallwch wehyddu mor agored neu mor drwchus ag y dymunwch.




9. I wehyddu llinell letraws fel y gwelir yn y llun, gallwch weld ar y 3ydd a'r 4ydd rhes o edau anwe oren, dydw i ddim wedi gwehyddu'r 2 edau ystof ar yr ochr dde. Yna ar gyfer y 5ed a'r 6ed rhes, dydw i ddim wedi gwehyddu'r 4 edau ystof ar yr ochr dde ac yn y blaen. Gallwch ddilyn eich greddf a gwehyddu siâp o'ch dewis chi.




10. Yna, drwy ddefnyddio edau sy'n cyferbynnu o ran lliw ond o'r un trwch, gallwch ddechrau llenwi. I ddechrau, rydw i'n gwehyddu dwy res i'r ochr dde o'r 2 edau ystof. Yna ar y drydedd linell, gallwch weld fy mod yn gosod y nodwydd i wehyddu ymyl y pedwar edafedd ystof.


© Laura Thomas & Cultural Cwtsh Creadigol 2023



11.  Parhewch nes bod y gofod wedi'i lenwi'n gyfan gwbl.




12.  Efallai y byddwch am ddefnyddio techneg arall i ychwanegu mwy o wead i'r wyneb, sef 'boblo' Yma, rydw i wedi gwehyddu rhes unigol o gnu gwlân. Gan ddechrau yn y canol, rydw i wedi defnyddio fy nodwydd i dynnu dolen neu 'bobl' o gnu am i fyny allan o sylfaen y gwehyddiad. Yna, gan ddal y ddolen gyntaf yn ei lle, rydw i'n tynnu'r ddolen nesaf ochr yn ochr ac yn ei wneud eto ar ei led.



13.  Ar ôl i chi orffen eich gwehyddu, efallai y byddwch am guddio'r edau ystof ar gefn y broc môr. Yn yr enghraiB hon, rydw i wedi torri darn o ddalen denau o gorc o'r maint cywir a'i ludo i'r cefn. Gallech ddefnyddio darn o ffelt neu rywbeth tebyg sydd ddim yn treulio.

14. Ar ôl ei gwblhau, gallwch naill ai frodio eich holl gynffonnau, neu eu gadael yn y golwg fel y gwelir yn y llun yma. Rydw i'n hoffi'r gwrthgyferbyniad rhwng y gwehyddu taclus a'r ymylon mwy gwyllt! Mae'r darn o gelf yn barod i'w roi ar y silff ben tân neu i'w hongian ar wal.



© Laura Thomas & Cultural Cwtsh Creadigol 2023

## Syniadau ac amrywiadau pellach

Beth am wehyddu stribedi o bapur, glaswellt sych, plu neu ddeunydd eraill rydych chi wedi dod o hyd iddyn nhw. Ymgorfforwch glymau anwe, dolenni a chobynnau o edau i'r ffabrig wedi'i wehyddu. Archwiliwch gyda lliwiau, maint a gwead i efelychu eich hoff dirlun.

© Laura Thomas & Cultural Cwtsh Creadigol 2023